Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

**Ystafell Bwyllgor 6 – Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 15 Mawrth 2018 am 10.00am**

**Yn Bresennol**: Y CynghoryddC E Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P Downing | M B Lewis | D G Sullivan |
| W G Thomas | M Thomas | P Rees (CBS CNPT) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| K Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| J Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol/Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| S Williams | Prif Gyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| N Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| V Furniss | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| W Marshall | Hymans Robertson |
| J Irvine | Hymans Robertson |
| D Williams | Swyddfa Archwilio Cymru |

## 50 Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd P. Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu at y Gronfa Bensiwn - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - rwyf i a'm gwraig yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd W G Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

## 51 Cofnodion

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

## 52 Cynrychiolaeth gan Gyfeillion y Ddaear

Datganodd y Cadeirydd fod cais i siarad â'r pwyllgor wedi'i dderbyn gan Mr Childs o Gyfeillion y Ddaear o ran eitem 7c yr agenda - Polisi Llywodraethu Cymdeithasol, Amgylcheddol.

**Penderfynwyd** bod cynrychiolwyr o Gyfeillion y Ddaear yn siarad â'r pwyllgor.

Siaradodd Mr Childs, Cyfeillion y Ddaear, â'r pwyllgor.

## 53 Cynllun Archwilio 2018 - Dinas a Sir Abertawe

Cyflwynodd David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Gynllun Archwilio 2018 a oedd yn darparu'r gwaith archwilio arfaethedig, pryd y câi ei wneud, beth fyddai'r gost a phwy fyddai'n ymgymryd â'r gwaith.

Roedd Atodiad 1 yn nodi cyfrifoldebau'r Archwiliwr yn llawn ac roedd Arddangosyn 1 yn darparu tri cham y dull archwilio a nodwyd y ffi archwilio arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 6. Dangoswyd elfennau'r gwaith archwilio perfformiad yn arddangosyn 4 a darparwyd amserlen yr archwiliadau arfaethedig yn Arddangosyn 8.

Byddai'r diweddaraf am gynnydd y cynllun yn cael ei adrodd i'r pwyllgor.

Datganodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol fod y gostyngiad mewn ffioedd archwilio wedi'i groesawu ac adlewyrchodd y gwaith parhaus rhwng SAC a'r cleient.

## 54 Adroddiad Toriadau

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion toriadau a gafwyd yn y Gronfa Bensiwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Darparodd Atodiad A fanylion am y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Tachwedd 2017. Amlygwyd manylion y toriadau hynny a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y rheolwyr.

## 55 Credoau Buddsoddi

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad i amlinellu'r Credoau Buddsoddi a fabwysiadwyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Atodwyd Datganiad o'r Credoau Buddsoddi yn Atodiad 1.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys yr adroddiad ac atebwyd hwy'n briodol. Cydnabuwyd y byddai'r credoau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Penderfynwyd cymeradwyo**'r Datganiad o Gredoau Buddsoddi.

## 56 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 57 Adolygiad o'r Strategaeth Buddsoddi

Darparodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol a Hymans Robertson, Ymgynghorwyr Buddsoddi, adroddiad i amlinellu'r diwygiadau argymelledig i'r strategaeth buddsoddi.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys yr adroddiad ac atebwyd yn briodol iddynt.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r newidiadau i'r strategaeth buddsoddi a'r lliniaru risg a amlygwyd yn yr adroddiad a'r diwygiadau dilynol i'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi a amlinellwyd yn yr adroddiad. Dirprwywyd y camau gweithredu priodol er mwyn gweithredu'r strategaeth ddiwygiedig i Swyddog Adran 151 a Phrif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol.

## 58 Adroddiad Adolygu Adnoddau'r Is-adran Gweinyddu Pensiynau

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad ar gyfer yr adnoddau argymelledig a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys yr adroddiad ac atebwyd hwy'n briodol.

**Penderfynwyd:**

1) cymeradwyo'r argymhelliad fel yr amlinellir yn 4.1 a rhoi caniatâd dirprwyedig i Swyddog Adran 151 a Phrif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol ei weithredu; a
2) darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r pwyllgor ar ôl 12 mis.

## 59 Polisi Llywodraethu Cymdeithasol, Amgylcheddol (LICA)

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad a oedd yn ystyried Polisi Llywodraethu Cymdeithasol, Amgylcheddol drafft Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys yr adroddiad ac atebwyd hwy'n briodol. Mabwysiadwyd y polisi drafft mewn egwyddor yn amodol ar wybodaeth ychwanegol am y lefelau targed arfaethedig o leihau carbon a dull gweithredu o fewn y portffolio ecwiti nad ydynt yn niweidiol i berfformiad y gronfa i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf pwyllgor y gronfa bensiwn.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r polisi mewn egwyddor a amlinellwyd yn amodol ar wybodaeth ychwanegol am y lefelau targed arfaethedig o leihau carbon a dull gweithredu o fewn y portffolio ecwiti nad ydynt yn niweidiol i berfformiad y gronfa i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf pwyllgor y gronfa bensiwn.

## 60 Cyflwyniad Gweithredwr Cynllun Contractiol Awdurdodedig (CCA) Cyswllt Partneriaeth Pensiwn Cymru - Russell Investments

Rhoddwyd cyflwyniad gan Duncan Lowman, Eamon Gough o Link Fund Solutions a Sasha Mandich o Russell Investments.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys yr adroddiad ac atebwyd hwy'n briodol.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Link Fund Solutions am ddod i'r cyfarfod.

## 61 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi - Hymans Robertson

Cyflwynwyd adroddiad 'er gwybodaeth' yr adroddiad chwarterol a oedd yn crynhoi prisiadau ased a pherfformiad y gronfa dros gyfnodau hyd at 31 Rhagfyr 2017.

Atodwyd adroddiad chwarterol Hymans Robertson yn Atodiad 1.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r Ymgynghorydd Buddsoddi ac atebwyd yn briodol iddynt. Nodwyd cynnwys yr adroddiad a diolchwyd i'r Ymgynghorydd Buddsoddi am yr adroddiad.

## 62 Adroddiad(au) y Cyd-ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol

Roedd yr adroddiad 'er gwybodaeth' yn cyflwyno diweddariad economaidd a sylwebaeth y farchnad o safbwynt yr Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol a benodwyd.

Daeth adroddiad chwarterol Mr Noel Mills a Mr Valentine Furniss, ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol, i ben ar 30 Medi 2017 ac fe'i atodwyd yn Atodiad 1.

Nodwyd cynnwys pob adroddiad gan y pwyllgor a diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol am eu hadroddiadau.

## 63 Crynodeb Buddsoddi

Rhoddodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad er gwybodaeth a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2017.

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2017 yn Atodiad 1.

## 64 Cyflwyniad(au) Rheolwr y Gronfa:

Rhoddodd cyflwyniad gan Lyndon Bolton, Geoff Day a Sue Noffke o Reolwyr Ecwiti Gweithredol y DU - Schroders.

Gofynnwyd i reolwyr am eu polisi a'u cofnod pleidleisio a chynnwys a'u cefnogaeth o UNPRI a'r côd stiwardiaeth. Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwr(wyr) y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

## 65 Ymddeoliad Mr Lyndon Bolton a Mr Valentine Furniss

Diolchodd y Cadeirydd i Lyndon Bolton a Valentine Furniss ar ran y pwyllgor am eu cyfraniad gwerthfawr at Bwyllgor y Gronfa Bensiwn a dymunodd y gorau iddynt ar gyfer eu hymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm

**Cadeirydd**